

Canllaw i Athrawon ar Ymarferiad 2: Cymharu Ffynonellau

1. Gwnewch nodiadau ar yr adroddiadau. Beth maen nhw'n ei ddweud? Pa fath o ffynonellau ydyn nhw? Gwnewch nodiadau gan ddefnyddio'r cwestiynau PETHAU I'W GOFYN ar y dudalen Dadansoddi Ffynhonnell.

Adroddiad gan y BBC: Safbwyntiau

Barn gyhoeddus – mae bwriad i'r BBC fod yn ddiduedd, ond maen nhw'n fwriadol wedi dewis siarad â rhai pobl, a gadael eraill allan.

Beth mae hynny'n ei ddweud wrth y myfyrwyr am ogwydd yr adroddiad yma?

Hanesion llygad-dystion – trafodwch pa mor ddibynadwy yw adroddiadau llygad-dystion.

Ydy pobl bob amser yn cofio pethau'n gywir?

Ydy rhagfarnau pobl, eu magwraeth, eu cylch cymdeithasol, eu hoed, ac ati yn effeithio ar eu barn? Sut mae hynny'n effeithio ar eu safbwyntiau?

Washington Post

Papur Americanaidd yw hwn sy'n adrodd ar y terfysgoedd yn y Deyrnas Unedig ar gyfer cynulleidfa yn America nad yw'n cael profiad uniongyrchol o fyw trwy'r terfysgoedd. Maen nhw'n esbonio'r hyn mae'r cyfryngau ym Mhrydain yn ei ddweud, ac yn dod i'w casgliadau eu hunain.

Anogwch y myfyrwyr i feddwl am farn y newyddiadurwr sy'n llunio'r adroddiad.

Nid ar gyfer cynulleidfa yn y Deyrnas Unedig mae hyn wedi'i ysgrifennu'n bennaf, ond oherwydd ei fod ar-lein, mae'r awdur yn ymwybodol y gallai pobl o'r Deyrnas Unedig ei ddarllen. Pa mor gyntbwys yw e? Beth yw'r ogwydd yma? Pa gasgliadau (os o gwbl) sydd yn yr adroddiad? Beth mae'r newyddiadurwr am i'r darlennydd ei ystyried?

The Guardian: Cyfweiliadau

Papur newydd Asgell Chwith yw hwn, sydd fel arfer yn portreadu'r dosbarth gweithiol mewn golau cadarnhaol. All y myfyrwyr weld gogwydd yma o ran y bobl maen nhw wedi dewis cynnal cyfweiliad â nhw?

Bu llawer o wahanol bobl yn cymryd rhan yn y terfysgoedd, o bob math o gefndir, gan gynnwys gweithwyr ifanc proffesiynol (gweler adroddiadau eraill ar y pryd).

Pa ddemograffig sy'n cael ei gyfweld yma? Pa argraff mae hynny'n ei greu o'r terfysgwyr, ac ydy hynny'n deg/gyntbwys?

Pa argraff mae The Guardian am i'r darlennydd ei chael o'r terfysgoedd, ac allwch chi ymddiried yn y fersiwn olygedig hon o'r digwyddiadau?

2. Beth mae'r ffynonellau'n ei ddweud wrthych chi am y terfysgoedd a'r bobl oedd yn rhan o'r terfysg? Gwnewch nodiadau ar y gwahaniaethau yn yr hanesion, gan nodi PAM rydych chi'n meddwl eu bod nhw'n wahanol. Ydy'r ffynonellau'n cytuno ar unrhyw beth? Os ydyn nhw, beth? Pam rydych chi'n meddwl eu bod nhw'n cytuno?

**Adroddiad y BBC:
Safbwyntiau**

Beth mae'r ffynonellau'n ei ddweud wrthych chi am y terfysgoedd a'r bobl oedd yn rhan o'r terfysg?

Mae'r BBC yn rhoi cyfle i rai aelodau o'r cyhoedd leisio barn. Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen hyn yn ofalus a gwneud nodiadau ar pwy sy'n siarad, gan geisio dyfalu oed/rhyw/ rhywedd/dosbarth cymdeithasol ac ati ar sail y farn a roddir.

Gofynnwch i'r myfyrwyr wneud nodiadau ar pwy oedd y terfysgwyr yn marn y cyhoedd.

Gallai hynny olygu darllen rhwng y llinellau. Os bydd rhywun yn dweud "fe redodd e heibio i fi yn cario teledu", y farn yw bod dynion oedd eisiau dwyn o siopau yn rhan o'r terfysg. Gallai'r person awgrymu bod y dynion hyn yn ifanc, ac yn ffit (heb fod yn anabl, ac felly yn ddigon iach i weithio). Bydd hyn yn gwneud i'r myfyrwyr ystyried y cwestiynau mwy ynghylch y pwnc: Sut mae hyn yn cydweddu â barn boblogaidd ynghylch troseddau ac ymddygiad troseddol? Ddylai protestwyr gael eu hystyried yn droseddwyr?

Washington Post

Mae'r Washington Post yn crynhoi safbwyntiau gwahanol ffynonellau, felly mae'n ffynhonnell sy'n adrodd am ffynonellau eraill! Dyna beth mae haneswyr yn ei wneud, yn y bôn. Dylai'r myfyrwyr benderfynu a ydyn nhw'n ymddiried yn syniadau a chasgliadau'r Washington Post, a gweld ydyn nhw'n cytuno â nhw ar sail safbwyntiau'r BBC a chyfweiliadau The Guardian. Oedd y newyddiadurwr Americanaidd yn bresennol adeg y terfysgoedd, neu ydy'r adroddiad wedi'i seilio'n syml ar yr hyn mae wedi'i ddarllen amdanynt nhw? Ydy hynny'n beth da neu'n beth drwg? Mae'r adroddiadau eraill yn cynnig persbectif CUL, PERSONOL (cyfweiliadau a barn un person ar y tro). Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar lawer o agweddau.

**The Guardian:
Cyfweiliadau**

Dewisodd The Guardian gynnal cyfweiliad â rhai pobl – pwy? Pam? Pwy wnaethon nhw ddim cynnal cyfweiliad â nhw? [Fyddwn ni byth yn clywed y storiâu sydd heb eu cofnodi – felly chawn ni byth y darlun llawn]. Cwestiwn tywys i'r myfyrwyr: Sut mae hyn yn effeithio arnon ni pan fyddwn ni'n edrych ar y ffynonellau yma?

Gwnewch nodiadau ar y gwahaniaethau yn y storiâu, a nodwch PAM rydych chi'n meddwl eu bod nhw'n wahanol.

Dylai'r myfyrwyr gymharu a chyferbynnu cyfweiliadau The Guardian (beth sydd gan y terfysgwyr i'w ddweud amdanynt eu hunain) â'r safbwyntiau a adroddir gan y BBC. Ydy'r hyn sy'n cael ei ddweud yma yn gwrthddweud neu'n cefnogi safbwynt y Washington Post?

Ydy'r ffynonellau'n cytuno ar unrhyw beth? Os ydyn nhw, beth? Pam rydych chi'n meddwl eu bod nhw'n cytuno?

3. PAM rydych chi'n meddwl bod y newyddiadurwyr wedi DEWIS cynnal cyfweiliad â phobl arbennig? Sut mae'r safbwyntiau hynny'n gweddu ag agenda/â gogwydd yr adroddiad? Cofiwch, yn achos papurau newydd, mai'r newyddiadurwyr a'r golygyddion sy'n PENDERFYNU beth i'w gynnwys a beth i'w adael allan mewn adroddiad neu stori. Am bopeth sy'n cael ei gynnwys, mae storïau eraill nad ydynt yn cael eu defnyddio. Am bob llun a ddefnyddir mewn adroddiad papur newydd, mae lluniau eraill nad ydynt yn cael eu gweld.

Adroddiad y BBC:
Safbwyntiau

Washington Post

The Guardian:
Cyfweiliadau

Y nod yw sicrhau bod y myfyrwyr yn gallu gweld GOGWYDD ar sail yr hyn maen nhw'n ei ddarllen. Anogwch nhw i feddwl yn FEIRNIADOL am y cyfryngau, a thrin adroddiadau'r cyfryngau fel ffynhonnell hanesyddol. Defnyddiwch y cwestiynau PETHAU I'W GOFYN ar y dudalen Dadansoddi Ffynhonnell i roi arweiniad.

> Pam rydych chi'n meddwl bod hyn yn digwydd? Sut mae hyn yn effeithio ar EICH BARN CHI ynghylch yr hyn rydych wedi'i ddarllen? Mae angen i'r myfyrwyr ddangos bod ganddyn nhw eu barn EU HUNAIN, a'u bod yn gwneud mwy nag ailadrodd yr hyn maen nhw wedi'i ddarllen.

4. Ydych chi'n meddwl bod cymharu Terfysgoedd Llundain â Mudiad y Siartwyr yn syniad DA? Pam/pam lai?

Yn y pen draw, barn y myfyrwyr eu hunain fydd hyn. Does dim ateb cywir nac anghywir cyhyd â bod cyfiawnhad priodol.

Y materion dan sylw yma yw:

1. *Cyd-destun cymdeithasol gwahanol (ond dyw hynny ddim yn golygu nad oedd problemau gwaelodol cymdeithas yr un fath yn 2011 ag yn 1839)*

2. *Dulliau gwahanol o brotestio – trefnus a heddychlon yn hytrach nag organig a threisgar*

3. *Nid ymledodd y terfysgoedd i Gymru – felly does dim modd cymharu'n ddaearyddol, gan nad oedd terfysgoedd ar y raddfa hon mewn mannau fel Caerdydd/Aberystwyth/Wreccsam/Penfro ac ati*

4. *Dulliau gwahanol o roi'r gair ar led – doedd dim cyfryngau cymdeithasol yn 1839, ond llwyddwyd i ddod â miloedd o bobl at ei gilydd! Cyfryngau cymdeithasol*

= mynediad ar unwaith, felly gall pobl weithredu'n fyrbwyll a gall gweithredu treisgar ennill momentwm tra bod pobl yn dal yn ddig. Os bydd angen dosbarthu llythyron, neu roi'r gair ar led yn llafar/trwy daflenni a phosteri, bydd dod â phobl at ei gilydd yn broses hwy. Ydy hi'n deg cymharu ar sail y ffaith hon?